


# GWERTH PROFIAD GOFAL

## ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2023-24

gwerth profiad gofa
care as currency

University of South Wales
Prifysgol De Cymru

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional Partnership Board

Coleg Gwent

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# CEFNDIR

Wedi'i sefydlu ym mis Awst 2018, mae Consortiwm Coleg Gyrfa Gwent (y Consortiwm) yn ddull partneriaeth o gefnogi recriwtio, datblygu a chymwysterau gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngwent. Mae'r Consortiwm wedi datblygu strwythur newydd o gydweithio rhwng Coleg Gwent, Prifysgol De Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Awdurdodau Lleol a Darparwyr Gofal sydd wedi addo gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol medrus a thosturiol ar draws Gwent. Ers ei sefydlu mae'r Consortiwm wedi anelu at ddatblygu a chryfhau lleoliadau gwaith perthnasol, dysgu drwy brofiad a datblygu llwybrau di-dor i yrfaoedd iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer ein carfan leol o fyfyrwyr yng Ngwent.

Mae'r Consortiwm wedi datblygu cyfres o brosiectau drwy ei raglen 'Gwerth Profiad Gofal' a fabwysiadwyd yn 2023 fel brand ymbarél cyhoeddus amrywiol brosiectau'r Consortiwm a phartneriaeth barhaus.

**Mae pob prosiect o dan y brand 'Gwerth Profiad Gofal' yn rhannu tri phrif nod:**

**1**

**Helpu i gyflwyno ffynhonnell newydd o staff sydd eisoes yn gysylltiedig â'r sector, gan gyflenwi cyflenwad cynaliadwy o dalent i awdurdodau lleol, ysbytai a darparwyr gofal lleol.**

**2**

**Cefnogi egwyddorion yr Economi Sylfaenol drwy ddatblygu sgiliau a thalentau o fewn cymunedau lleol tra'n cyflawni gweledigaeth strategaeth gweithlu ar y cyd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC).**

**3**

**Sicrhau bod gofal yn gyfredol ac yn werthfawr yn y rhanbarth i ystod eang o bobl a allai fod yn ceisio ymuno â'r gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol neu symud ymlaen o'i fewn.**

Mae cwmpas y Consortiwm yn uchelgeisiol, ac yn parhau i fod, ac yn dod â sefydliadau mawr, amlochrog at ei gilydd ar ôl troed rhanbarthol. O'r cychwyn cyntaf mae aelodau'r Consortiwm wedi rhannu angerdd i weithio mewn partneriaeth er budd datblygiad dysgwyr iechyd a gofal cymdeithasol lleol a chanlyniadau iechyd a chymorth ehangach dinasyddion Gwent.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r rhaglen 'Gwerth Profiad Gofal' hyd yma, ei llwyddiannau, dysgu a'i dyheadau ar gyfer y dyfodol. Mae'r Consortiwm yn parhau i fod yn ymrwymedig i'w ddull partneriaeth arloesol o ymgysylltu â thalent leol a'i datblygu i ddiwallu anghenion gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol Gwent yn y dyfodol.

# MYNEDIAD I FEDDYGAETH




## AMCAN ALLWEDDOL

**“Ehangu mynediad i lwybrau gyrfa i feddygaeth a phynciau cysylltiedig.”**

Partneriaid arweiniol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB), Prifysgol Caerdydd a Coleg Gwent (gyda chymorth Agored Cymru)

## CEFNDIR A MATER A NODWYD:

Yn hanesyddol bu prinder parhaus o fyfyrwyr o Went sy’n dilyn gyrfaoedd mewn meddygaeth. Mewn symudiad arloesol tuag at gynhwysiant a chyfle cyfartal, mae Coleg Gwent wedi ymuno ag Agored Cymru a’r Athro Paul Edwards (BIPAB) i gynnig cyfle i fyfyrwyr o gefndiroedd llai breintiedig astudio cwrs Mynediad i Feddygaeth.

Y cwrs, sy’n paratoi myfyrwyr ar gyfer Gradd Llwybr Meddygol yw’r cyntaf o’i fath yng Nghymru, gan ddileu rhwystrau i unigolion talentog, lleol sydd yn draddodiadol wedi wynebu rhwystrau i fynd i mewn i faes meddygaeth.

## LLWYDDIANNAU A BUDDIOLWYR HYD YMA:

Mae datblygiad y rhaglen hon wedi’i arwain gan yr Athro Paul Edwards (BIPAB) a Guy Lacey (Pennaeth Coleg Gwent).

Gan weithio ar y cyd ag Ysgol Feddygaeth Caerdydd ac Agored Cymru, mae rhaglen Diploma Mynediad i Addysg Uwch (Meddygaeth) Coleg Gwent (Campws Crosskeys) wedi’i dilysu’n llawn yn 2023. Gwnaeth y garreg filltir hon Coleg Gwent y Coleg Addysg Bellach cyntaf yng Nghymru i gael caniatâd i redeg y cwrs hwn ar ôl gweithgaredd peilot cychwynnol yn Lloegr.

Ym mis Medi 2023, recriwtiwyd y garfan gyntaf o ddysgwyr, ac mae pedwar unigolyn bellach wedi cwblhau’r cwrs peilot cychwynnol yn llwyddiannus. Er bod y garfan gychwynnol o ddysgwyr yn fach, mae’r cwrs hwn bellach wedi’i sefydlu a bydd yn parhau i dyfu a chynnig cyfleoedd i’r rheini yng Ngwent sydd â dyheadau gyrfa mewn meddygaeth.

## DYHEADAU AR GYFER Y DYFODOL:

Archwilio cyfleoedd gydag ysgolion prifysgol berthnasol i ehangu’r ddarpariaeth cyrsiau i’r rhai sy’n chwilio am le ar gyrsiau gradd berthynol fel deintyddiaeth.

# LLEOLIADAU GWAITH GOFAL CYMDEITHASOL AWDURDODAU LLEOL



## AMCAN ALLWEDDOL Y CONSORTIWM:

**“Datblygu mwy o gyfleoedd ar gyfer Lleoliadau Gwaith Awdurdodau Lleol i ddysgwyr.”**

Partneriaid arweiniol: Awdurdodau Lleol Gofal Cymdeithasol Blaenau Gwent, Caerffili, Mynwy, Casnewydd a Thorfaen a Coleg Gwent

## CEFNDIR A MATER A NODWYD:

Wedi'i lansio ym mis Medi 2022 i fynd i'r afael ag anghenion dysgu drwy brofiad dysgwyr iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â gofynion recriwtio awdurdodau lleol, sefydlwyd menter lleoliadau cydweithredol gyda phob un o'r pum awdurdod lleol ar draws Gwent. Bydd cynyddu cyfleoedd ar gyfer profiad ymarferol yn nodau'r sector gofal cymdeithasol lleol yn helpu i bontio'r bwlch rhwng addysg a chyflogaeth, cefnogi dilyniant dysgwyr ac ehangu gwybodaeth myfyrwyr am lwybrau gyrfa lleol.

**“Pobl a chyfleoedd gwych. Dysgais gymaint a chael cymaint ofewnwelediad i'r hyn y mae'r rôl yn ei olygu.”**

**Dysgwr Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

## LLWYDDIANNAU A BUDDIOLWYR HYD YMA:

Ers cyflwyno'r fframwaith lleoliadau awdurdodau lleol, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran hwyluso lleoliadau dysgwyr o fewn timau gwasanaeth awdurdodau lleol. Yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, cafodd 30 o ddysgwyr iechyd a gofal cymdeithasol o Goleg Gwent fynediad i leoliadau mewn lleoliadau Awdurdod Lleol amrywiol.

## DYHEADAU AR GYFER Y DYFODOL:

Ehangu cyfleoedd lleoliad gwaith ar draws ystod amrywiol o leoliadau a thimau Awdurdodau Lleol, gan roi gwybodaeth hanfodol i ddysgwyr am gyfleoedd gofal cymdeithasol lleol a'u galluogi i wneud penderfyniadau mwy gwybodus am eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

Mae pwyslais cynyddol hefyd ar ddarparu cyfleoedd dilyniant addas i ddysgwyr sy'n dymuno cael gwaith ar ôl cwblhau eu hastudiaethau yng Ngholeg Gwent. Mae sicrhau bod dysgwyr yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i ddilyn llwybrau gyrfa ystyrlon lleol yn hanfodol ar gyfer llwyddiant hirdymor y fframwaith lleoliad gwaith.

# LLEOLIADAU GWAITH CLINIGOL BIPAB




## AMCAN ALLWEDDOL Y CONSORTIWM:

**"Datblygu mwy o gyfleoedd ar gyfer lleoliadau gwaith clinigol i ddysgwyr."**

Partneriaid arweiniol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Coleg Gwent

## CEFNDIR A MATER A NODWYD:

Amlygodd pandemig COVID-19 yn 2020 yr heriau recriwtio sy'n wynebu byrddau iechyd ledled Cymru, yn enwedig y galw am nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd. Pwysleisiodd hyn bwysigrwydd darparu lleoliadau gwaith ystyrlon o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB) i fyfyrwyr iechyd a gofal cymdeithasol ar draws y coleg, gan ganiatáu iddynt gael profiad uniongyrchol o weithio mewn lleoliadau clinigol.

Datblygwyd y rhaglen gyntaf mewn partneriaeth â BIPAB ym mis Chwefror 2022, gan roi 100 awr o leoliadau clinigol ar draws yr ysbytai i ddysgwyr ail flwyddyn sy'n dilyn Diplomâu Estynedig Lefel 3.

## LLWYDDIANNAU A BUDDIOLWYR HYD YMA:

Roedd y peilot cychwynnol yn cynnwys 22 o fyfyrwyr. O'r rhain, symudodd 16 o fyfyrwyr ymlaen i brifysgolion i ddilyn gyrfaoedd cysylltiedig ag iechyd, sicrhaodd 4 gyflogaeth o fewn y bwrdd iechyd, a 5 yn y sector gofal cymdeithasol lleol.

Ym mlwyddyn academaidd 2022/23 cwblhaodd 23 o ddysgwyr leoliadau clinigol. O'r rhain, aeth 12 ymlaen i brifysgol, pedwar i gyrsiau addysg uwch yn y coleg, a sicrhaodd chwech gyflogaeth o fewn y bwrdd iechyd.

Y flwyddyn academaidd hon mae 38 o ddysgwyr ar draws pob un o'r pedwar campws coleg wedi sicrhau lleoliadau clinigol. Ar hyn o bryd, mae dau ddysgwr wedi sicrhau swyddi parhaol fel gweithwyr cymorth gofal iechyd yn BIPAB.

## DYHEADAU AR GYFER Y DYFODOL:

Ehangu'r rhaglen i gynnwys mwy o fyfyrwyr bob blwyddyn, gan sicrhau bod mwy o ddysgwyr o gefndiroedd amrywiol yn cael y cyfle i gael profiad clinigol gwerthfawr. Drwy ehangu cyrhaeddiad, gwella'r cwricwlwm, a darparu systemau cymorth cadarn, nod y Consortiwm yw grymuso mwy o fyfyrwyr i gyflawni eu llawn botensial yn y sector gofal iechyd lleol.

# INTERNIAETHAU Â CHYMORTH AR GYFER DYSGWYR SGILIAU BYW'N ANNIBYNNOL (ILS)



## AMCAN ALLWEDDOL Y CONSORTIWM:

**"Cynnig interniaethau â chymorth i Ddysgwyr Sgiliau Byw'n Annibynnol o fewn y sector iechyd a gofal cymdeithasol lleol."**

Partneriaid arweiniol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB), Engage to Change, a Coleg Gwent

## CEFNDIR A MATER A NODWYD:

Ym mis Chwefror 2022, lansiwyd y rhaglen interniaeth â chymorth gyntaf ar y cyd â BIPAB, Engage to Change, ac Anabledd Dysgu Cymru. Mae'r dull arloesol hwn yn cyfuno dysgu seiliedig ar waith â rhaglen astudio bersonol sy'n ymgorffori elfennau o Lwybr 4 y cwricwlwm Sgiliau Byw'n Annibynnol (ILS). Nod y rhaglen yw cefnogi dysgwyr ILS gyda'r sgiliau a'r cymwysterau angenrheidiol i sicrhau cyflogaeth leol, gynaliadwy â thâl. Treuliodd y garfan gychwynnol o ddysgwyr tri diwrnod yr wythnos yn yr adran cyfleusterau yn Ysbyty Nevil Hall.

**"Dw i'n teimlo'n gyffrous, a dw i'n edrych ymlaen at weithio yn yr ysbyty a chwrdd â phobl newydd. Hoffwn adeiladu ar fy hyder."**

**Dysgwr ILS**

## LLWYDDIANNAU A BUDDIOLWYR HYD YMA:

Mae'r rhaglen wedi dangos twf a llwyddiant cyson flwyddyn ar ôl blwyddyn. Yn ei flwyddyn gyntaf, cwblhaodd chwech myfyriwr yr interniaeth â chymorth, gyda pedwar yn sicrhau cyflogaeth ran-amser ac un yn symud ymlaen i raglen goginio broffesiynol.

Yn 2022/23, cwblhaodd wyth dysgwr y rhaglen yn llwyddiannus, sicrhaodd un brentisiaeth gyda'r tîm cofnodion iechyd yng Nghasnewydd a chafodd dau ddysgwr brentisiaethau gyda'r tîm cyfleusterau yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Yn ogystal, cafodd un dysgwr brentisiaeth gyda'r tîm cofnodion iechyd yn Ysbyty Nevill Hall, a sicrhaodd un arall swydd â thâl rhan-amser nad oedd yn gysylltiedig â'r sector iechyd. Cyfrannodd gweddill y dysgwyr at brosiectau gwirfoddoli amrywiol.

Bellach yn ei thrydedd flwyddyn, mae'r rhaglen yn parhau i ffynnu, gyda saith o ddysgwyr wedi cofrestru ar hyn o bryd ac yn elwa o leoliadau gyda'r timau cyfleusterau yn Nevill Hall.

## DYHEADAU AR GYFER Y DYFODOL:

Datblygu partneriaethau ag adrannau a sefydliadau gofal iechyd ychwanegol y tu hwnt i gydweithrediadau presennol, gan helpu i amrywio'r mathau o leoliadau sydd ar gael, gan ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr archwilio ystod ehangach o lwybrau gyrfa. Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod holl raddedigion y rhaglen yn cael cyfweliad gwarantedig ar gyfer agoriadau swyddi perthnasol, gan bontio'r bwlch rhwng hyfforddiant a chyflogaeth.

# CYNLLUN CADETIAID COLEG BRENHINOL Y NYRSYS



## AMCAN ALLWEDDOL Y CONSORTIWM:

**"Cefnogi cyflwyniad Tywysog Cymru o'r Cynllun Cadetiaid Nyrsio y Coleg Nyrsio Brenhinol."**

Partneriaid arweiniol: Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN), Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB), Coleg Gwent a Phrifysgol De Cymru

## CEFNDIR A MATER A NODWYD:

Gyda chefnogaeth Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru, mae Cynllun Cadetiaid Nyrsio y Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) yn cefnogi pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed i ddatblygu eu sgiliau ar gyfer gyrfa mewn nyrsio. Mae'r cynllun yn darparu 60 awr o hyfforddiant sy'n cynnwys 20 awr o brofiad arsylwi o fewn y Bwrdd Iechyd lleol. Unwaith y bydd cadetiaid wedi cwblhau'r cwrs, byddant yn derbyn tystysgrif, trawsgrifiad modiwl a phin cyn-fyfyrwyr arbennig. Mae dysgwyr sy'n cwblhau'r cwrs hefyd yn sicr o gael cyfweliad ar gyfer rôl fel gweithiwr cymorth gofal iechyd.

**"Mwynheais y cwrs hwn oherwydd ei fod wedi fy helpu i ddod allan o'm cragen, dysgu sgiliau newydd, cwrdd â phobl newydd ac adolygu astudiaethau achos i baratoi ar gyfer y byd go iawn. Dw i'n argymell y cwrs hwn yn fawr i bob darpar nyrs gan ei fod yn ffordd wych o ddarganfod a yw nyrsio yn addas i chi mewn gwirionedd!"**

**Cadet RCN**

## LLWYDDIANNAU A BUDDIOLWYR HYD YMA:

Mewn cydweithrediad â Chadetiaid Nyrsio'r RCN a BIPAB, mae dau gynllun cadetiaid wedi'u cyflwyno'n llwyddiannus er budd 36 o ddysgwyr iechyd a gofal cymdeithasol o gampws Crosskeys Coleg Gwent.

Cwblhaodd y garfan gyntaf y cynllun yn y flwyddyn academaidd 2022/23, gyda 19 o ddysgwyr yn cael cyfweliadau prifysgol. Yn ogystal, mae 1 dysgwr wedi sicrhau rôl fel gweithiwr cymorth gofal iechyd. Mae'r garfan arall o gadetiaid yn aros am ganlyniadau o'u cyrsiau.

Mae'r ail garfan, sy'n cynnwys 17 o ddysgwyr, yn y broses o gwblhau'r rhaglen ar hyn o bryd. Dechreuodd y drydedd garfan o Gadetiaid Nyrsio'r Coleg Nyrsio Brenhinol ar eu hyfforddiant ddydd Llun 13 Mai ac ehangwyd y rhaglen i gynnwys dysgwyr o Flaenau Gwent, Casnewydd a Crosskeys.

## DYHEADAU AR GYFER Y DYFODOL:

Ymestyn y cynllun i fwy o gampysau a chymunedau, gan sicrhau bod mwy o bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed yn cael y cyfle i elwa ar y rhaglen drawsnewidiol hon.

Hyrwyddo cynhwysiant trwy geisio denu mwy o gadetiaid o gefndiroedd amrywiol, gan feithrin carfan gyfoethog ac amrywiol sy'n adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

# Y RHAGLEN YSGOLION INTEGREDIG



## AMCAN ALLWEDDOL Y CONSORTIWM:

**“Datblygu a chyflwyno rhaglen llwybr gyrfa integredig ar draws ysgolion Gwent.”**

Partneriaid arweiniol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB), Awdurdodau Lleol Gwent, Prifysgol De Cymru (PDC) a Coleg Gwent

## CEFNDIR A MATER A NODWYD:

Lansiwyd y rhaglen ysgolion integredig ym mis Rhagfyr 2023 ac mae'n dod ag ymarferwyr ac addysgwyr o bob rhan o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol lleol yng Ngwent ynghyd ac mae'n cynnig cyfle i ddisgyblion ysgolion uwchradd gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â gyrfaoedd iechyd a gofal cymdeithasol penodol ac archwilio cymwysterau a llwybrau gyrfa lleol.

Mae'r Rhaglen Ysgolion Integredig yn ddull cydweithredol ehangach o ymgysylltu ag ysgolion drwy'r consortiwm, sy'n ategu meysydd eraill y rhaglen waith 'Gwerth Profiad Gofal'.

**Nod y rhaglen yw:**

- Codi ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc 14 i 16 oed o ehangder llwybrau gyrfa/addysg iechyd a gofal cymdeithasol lleol a chyfleoedd gwaith.
- Codi dyheadau pobl ifanc 14 i 16 oed, gan roi'r hyder a'r wybodaeth iddynt ddilyn gyrfa ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cefnogi egwyddorion yr Economi Sylfaenol trwy ddatblygu sgiliau a thalentau o fewn y gymuned leol.
- Cynyddu presenoldeb ac amlygrwydd llwybrau gyrfa iechyd a gofal cymdeithasol ym mhob ysgol ar draws Gwent.

## LLWYDDIANNAU A BUDDIOLWYR HYD YMA:

Mae'r rhaglen wedi targedu ysgolion sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd o amddifadedd uchel i godi dyheadau'r disgyblion hyn a, hyd yma, mae wedi darparu ar gyfer tua 190 o ddisgyblion ar draws y lleoliadau canlynol:

- St Ceyndd, Caerffili
- Bryn Mawr, Blaenau Gwent
- Lliswerry, Casnewydd
- Abersychan, Torfaen
- Uned Cyfeirio Disgyblion Torfaen

> **“Roedd y digwyddiad a gynhaliwyd gennych yn ysgol St Cenydd yr wythnos diwethaf yn wych, roedd yr holl ddisgyblion a staff wedi mwynhau yn fawr ac yn ei weld mor fuddiol. Roedden ni wir yn gwerthfawrogi'r cyfle ac yn gobeithio y gallwch chi ei gynnig eto yn y dyfodol.”**
>
> **Cynghorydd Gyrfa Cymru, Caerffili**

# DYHEADAU AR GYFER Y DYFODOL:

Ymestyn y cynnig i unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion Cymraeg ac i'r bobl ifanc hynny sy'n cael eu haddysgu gartref. Seilio gweithgarwch y dyfodol ar rolau penodol a nodwyd sy'n wynebu prinder gweithlu yng Ngwent.

## UCHELGEISIAU I'R DYFODOL?
## RYDYM AR HYN O BRYD YN GWEITHIO AR:

- Darpariaeth cyrsiau coleg newydd gyda'r nod o gyflwyno unigolion i yrfaoedd mewn nyrsio deintyddol, hylendid deintyddol, technoleg ddeintyddol ac estheteg.
- Darpariaeth coleg newydd Agored gyda'r nod o roi cyfle llwybr cyflym i unigolion wneud cais i ymuno â gradd nyrsio tra'n gweithio fel Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd.






# CRYNODEB

Mae gwaith Consortiwm Coleg Gyrfa Gwent a'i raglen 'Gwerth Profiad Gofal' yn ymateb ymarferol i fynd i'r afael â materion gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Gwent. Nod y mentrau a amlinellir yn yr adroddiad gwerthuso hwn yw datblygu, cynyddu ac integreiddio'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, gan sicrhau bod pobl leol yn cael cyfleoedd lluosog i ddysgu, hyfforddi a dod o hyd i waith yn y GIG a gofal cymdeithasol ar bob lefel.

Hoffem ddiolch i'r holl bartneriaid o fewn Consortiwm y Coleg am yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn ond hoffem gloi gyda chais am ragor o gymorth a chefnogaeth gan unrhyw bartïon â diddordeb.

Er mwyn hybu gwaith y consortiwm hwn, rydym yn awyddus i gael cymorth penodol i nodi cyfleoedd ariannu pellach yn y dyfodol i gefnogi'r rhaglen waith 'Gwerth Profiad Gofal' ac i ddileu rhai o'r rhwystrau sy'n ein hwynebu.

Rydym hefyd yn chwilio am fwy o sefydliadau sy'n barod i gynyddu ymgysylltu â'r rhai mewn addysg yn enwedig trwy gynnig cyfleoedd lleoliad gwaith.

Hoffem ni hefyd gydnabod y cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru eleni drwy'r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth.

Cynlluniwyd y Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth (Knowledge Transfer Programme - KTP) i gefnogi colegau yng Nghymru i gyflwyno gweithgareddau a dyluniwyd i gyflymu a magu arbenigedd aelodau staff a chynyddu gwybodaeth a phrofiad dysgu'r dysgwr. Mae Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn flaenoriaeth yn y rhaglen hon.

**Diolch am eich cefnogaeth.**